


Plant a Phobl Ifanc


Adroddiad Blynyddol 2017–2018



Cynnwys

Rhagair gan y Prif Weithredwr	3
Y rhai rydym wedi gweithio gyda nhw	4
Darnau allweddol o waith	5
Crynodeb o'r flwyddyn	6
Cyllideb	9
Cynnwys plant a phobl ifanc	10
Bwrdd Cyfiawnder Teulol i Bobl Ifanc	11
Gwella ein gwasanaeth	12
Edrych ar y flwyddyn i ddod	13

Os ydych am ddarllen fersiwn lawn yr adroddiad hwn gallwch ei weld yn:
<https://beta.llyw.cymru/adroddiad-blynnyddol-cafcass-cymru-2017-2018>



Rhagair gan y Prif Weithredwr



Helo, fy enw i yw Nigel Brown, Prif Weithredwr Cafcass Cymru. Bydd yr Adroddiad Blynyddol 2017 / 18 yn dweud ychydig bach wrthych ynghylch mor dda mae Cafcass Cymru wedi'i wneud dros y flwyddyn a rhai o'n heriau.

Bu'r flwyddyn hon yn un heriol i ni unwaith eto gyda **6% mwy o blant** rydym wedi gweithio gyda nhw, sy'n golygu ein bod bellach yn gweithio gyda 20% yn fwy o blant o gymharu â 2015 / 16, sef **dros 9000 o'r plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yng Nghymru**.

Mae gwranddo ar lais plant a phobl ifanc a'i gynrychioli yn y Llys Teulu wrth wraidd ein gwaith ac mae eu cyfraniad yn amhrisiadwy o ran ein helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn parhau wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym am sicrhau bod plant a phobl ifanc yn parhau i gymryd rhan wrth lunio ein gwasanaeth felly mae'n bleser gennyf bod y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc (FJYPB) wedi cytuno i arwain a chynnal ein cynhadledd staff ym mis Mai 2018 a fydd yn canolbwyntio ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i ganolbwyntio yn y flwyddyn i ddod er mwyn parhau i ddysgu a gwella fel ein bod yn adeiladu ar ein cryfderau a sicrhau bod plant yn parhau'n ganolbwynt i bopeth a wnawn.

Nigel Brown
Prif Weithredwr

Y rhai rydym wedi gweithio gyda nhw

Mewn ymateb i lefelau uchel parhaus o alw am ein gwasanaeth yn 2017/18, gwnaethom gyflawni nifer o ffyrdd i sicrhau ein bod yn gweithio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon â phosibl a sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i blant a phobl ifanc. Roedd rhai o'r dulliau hyn yn cynnwys:

Gan weithio gyda'r Is-adran Plant a Theuluoedd datblygwyd Gweithio Gyda'ch Gilydd Er Lles Plant. Mae hyn er mwyn helpu rhieni sydd wedi gwahanu yng Nghymru i gael cyngor a chymorth gyda rhai o'u materion.

**Llywodraeth
Cymru**

**Barnwyr
Teulu
Dynodedig
yng Nghymru**

**Cafcass
Cymru**

**Ymarferwyr
y Telir Ffi
iddynt**

Gweithiwyd gyda Barnwyr i sicrhau eu bod yn deall yn well beth mae Cynghorwyr Llys Teulu Cafcass Cymru yn ei wneud a ddim yn ei wneud wrth weithio gyda phlant sy'n rhan o achosion cyfraith gyhoeddus.

Rydym wedi cyflogi nifer o Ymarferwyr y Telir Ffi Iddynt — mae'r rhain yn staff y gallwn eu defnyddio pan fydd gennym gynnydd mewn gwaith a bydd angen mwy o gymorth arnom.

**Cafcass
Lloegr**

Gwnaethom weithio gyda'n gilydd a datblygu Canllawiau ar y defnydd o amser proffesiynol er budd plant. Defnyddir hyn i helpu ein staff i weithio'n well pan maent yn brysur.

Darnau allweddol o waith

Gwnaethom hefyd weithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol er mwyn sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda i ateb y galw am ein gwasanaethau. Roedd darnau allweddol o waith yn cynnwys:

Adolygiad Argyfwng Gofal

- Gwnaeth hyn gynnwys llawer o randdeiliaid ledled Cymru a Lloegr sy'n gweithio yn y system cyfiawnder teuluol. Gwnaethom edrych ar beth yw'r rhesymau pam mae cynnydd mewn plant sy'n dod yn rhan o achosion cyfraith gyhoeddus. Gellir dod o hyd i'r Adolygiad Argyfwng Gofal llawn yn: www.frg.org.uk/involving-families/reforming-law-and-practice/care-crisis-review

Swyddog Adolygu Annibynnol (SAA)

- Gwnaethom weithio gyda'n gilydd i nodi pa rôl sydd gan Cafcass Cymru ac SAA plentyn i sicrhau bod y plentyn yn glir a bod y ddau wasanaeth yn gweithio tuag at y canlyniad gorau i'r plentyn.

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol

- Gwnaethom weithio gyda'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Gwasanaethau Plant yng Nghymru i nodi canllawiau arfer da wrth weithio gyda babi newydd a fydd yn cael ei fabwysiadu (babanod wedi'u hildio).

Cafcass Lloegr

- Gyda'n gilydd gwnaethom gytundeb i ni rannu achosion a'r wybodaeth i'r plant hynny sy'n symud i mewn neu allan o Gymru a Lloegr.
- Gwnaethom hefyd ddatblygu canllaw ar y cyd i ymarferwyr wrth weithio gyda'r plant a'r bobl ifanc hynny nad ydynt yn cael y rhyddid i adael eu lleoliad awdurdod lleol neu nad ydynt yn gallu rhoi caniatâd i'w trefniadau.



Crynodeb o'r flwyddyn

Mae ein gwaith yn cael ei rannu'n ddau faes yn bennaf:

Cyfraith Breifat a Chyfraith Gyhoeddus

Weithiau gall teuluoedd ei chael hi'n anodd cytuno ar yr hyn sydd orau i'w plentyn/plant. Os na allant ddatrys y problemau hyn, efallai y byddant yn gofyn i'r llys teulu helpu.

Weithiau gall pobl fod yn poeni am blentyn/plant nad ydynt yn derbyn gofal yn iawn neu mewn perygl o niwed. Os bydd hyn yn digwydd, bydd yr awdurdod lleol yn gofyn i'r llys gymryd rhan.

Cyfraith Preifat

Oed: < 1

2015/2016 – 236
2016/2017 – 267
2017/2018 – 308



Cyfraith Cyhoeddus

2015/2016 – 582
2016/2017 – 685
2017/2018 – 728

Oed: 1 – 5

2015/2016 – 2,083
2016/2017 – 2,319
2017/2018 – 2,452



2015/2016 – 905
2016/2017 – 1,005
2017/2018 – 989

Oed: 6 – 11

2015/2016 – 2,059
2016/2017 – 2,342
2017/2018 – 2,574



2015/2016 – 748
2016/2017 – 832
2017/2018 – 846

Oed: 12 – 16

2015/2016 – 512
2016/2017 – 543
2017/2018 – 583



2015/2016 – 401
2016/2017 – 478
2017/2018 – 502

Oed: 17 – 18

2015/2016 – 12
2016/2017 – 16
2017/2018 – 20




2015/2016 – 8
2016/2017 – 18
2017/2018 – 17

Nifer y plant y gwnaethom weithio gyda nhw

Yn ystod 2017-18, gwnaethom weithio gyda **9,000 o blant** a phobl ifanc, sef cynnydd o **6%** o'i gymharu â'r 8,500 yn 2016/17. Bu cynnydd o **20%** yn nifer y plant sy'n ymwneud â Cafcass Cymru ers 2015/16. Roedd y rhan fwyaf o'r plant y gwnaethom weithio gyda nhw y llynedd (**87%**) yn un ar ddeg mlwydd oed neu'n iau.

Ceisiadau Cyfraith Gyhoeddus



Cyfanswm y plant a oedd yn ymwneud ag achosion cyfraith gyhoeddus yn 2017/18 oedd

3,082, sef cynnydd o **2%** o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae ceisiadau Cyfraith Gyhoeddus wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf, gyda chynnydd o

21% ers 2015/16.

Ceisiadau Adran 31



Y prif ysgogwr yng ngwaith cyfraith gyhoeddus yw ceisiadau Adran 31 (gofal). Bydd awdurdod lleol yn gwneud cais Adran 31 i'r llys pan fydd ganddo bryderon sylweddol am ddiogelwch neu les plentyn. Bydd yn gwneud cais i fynd â'r plentyn i mewn i ofal neu i gael cyfrifoldeb am oruchwyllo gofal y plentyn.

Cawsom **1,050** o geisiadau yn 2017/18,


sef cynnydd o **24%** o gymharu â'r ddwy flynedd ddiwethaf.

Llety Diogel




Mae Ceisiadau Llety Diogel yn cwmpasu canran fach o'n gwaith ond mae'r atgyfeiriadau wedi bod yn cynyddu'n sylweddol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Eleni gwelwyd cynnydd o **100%** yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Gwaith Cyfraith Breifat Pellach



Cyfanswm y plant a oedd yn ymwneud ag achosion Cyfraith Breifat yn 2017 / 18 oedd 2017 / 18 oedd **5,937**, sef cynnydd o **8%** o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Llwyth Gwaith Cafcass Cymru



Llwyth Gwaith Cyfunol

Mae swm y gwaith rydym wedi'i gwblhau wedi cynyddu o un flwyddyn i'r llall. Yn 2017/18 cwblhawyd **7591** darn o waith ar draws Cyfraith Gyhoeddus a Phreifat. Mae'r swm ar gyfer 2017/18 yn gynydd o **10%** o gymharu â 2016/17 a oedd yn ei dro yn gynydd o **20%** o gymharu â 2015/16.

Cyllideb

Ein cyllideb ar gyfer 2017/18 oedd **£10,267,000**, yr oedd y rhan fwyaf ohono'n gostau staff (**92%**); gwnaethom gyflogi **145 o ymarferwyr gwaith cymdeithasol ar draws Cymru** yn ogystal â **60 o staff cymorth**. Roedd **8%** gweddillol ein cyllideb yn cwmpasu ein costau rhedeg a gwasanaethau cymorth i deuluoedd drwy orchymyn llys.



Cynnwys Plant a Phobol Ifanc

Mae ein strategaeth gyfranogi 'Dy Lais' yn galluogi'r sefydliad i adeiladu ar ryngweithio o ddydd i ddydd ein staff â phlant a phobl ifanc, gan eu galluogi i ddylanwadu ar y ffordd y maen nhw, yn ogystal â phlant yn y dyfodol, yn derbyn ein gwasanaethau.

Mae gan 'Dy Lais' dri nod strategol yn ogystal â chefnogi'r nodau sefydliadol ehangach:

- Gwrandio a Dysgu — rydym yn gwrandio ar eich barn ac yn dysgu o'r hyn rydych yn ei ddweud wrthym.
- Cynnwys a Hysbysu — rydym yn canfod pa wybodaeth rydych yn ei dymuno a sut rydych am ei chael.
- Cydweithio a rhannu — rydym yn gweithio gyda sefydliadau, fel y caiff eich llais ei glywed yn y system cyfiawnder teuluol.

Gwnaethom wrando ar farn pobl ifanc ac o ganlyniad i hynny gwnaethom ymgysylltu ag amrywiaeth eang o blant a phobl ifanc, defnyddwyr gwasanaethau, rhanddeiliaid a chydweithwyr wrth ailgynllunio ein brandio sefydliadol.

Mae cynnwys pobl ifanc yn ein nodau busnes craidd yn parhau i fod yn rhan bwysig o'n strategaeth gyfranogi ac eleni gwnaethom y canlynol:

- Creu proses i gynnwys pobl ifanc wrth recriwtio ein staff, gan gynnwys ein swyddi gwag Dirprwy Brif Weithredwr a Phennaeth Gweithrediadau.
- Gofynnwyd i pobl ifanc ddylunio ac arwain hyfforddiant cenedlaethol i'n staff ar gyfranogi a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac mae rhaglen hyfforddiant sefydlu parhaus ar gyfer ein staff newydd wedi'i chynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf.



Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc



Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc (FJYPB) wedi chwarae rhan fawr mewn llawer o'n llwyddiannau cyfranogi. Rydym yn falch iawn ein bod wedi gallu cynorthwyo â recriwtio dau gynrychiolydd newydd o Gymru i'r FJYPB.

O ganlyniad i arolygiadau swyddfa o dan arweiniad plant y llynedd, o dan arweiniad y FJYPB, gwnaethom hefyd wneud newidiadau pellach i'n hystafelloedd teulu. Ychwanegwyd hysbysfyrddau gyda gwybodaeth yn benodol i bobl ifanc, 'coeden adborth' fel ffordd ychwanegol i blant roi adborth i ni ac ychwanegwyd at rai o'n dulliau gwaith uniongyrchol ar gyfer plant i'n waliau i'w gwneud yn fwy deniadol.

Drwy ddigwyddiadau cyfranogi, adborth ac ymgynghoriadau, gwnaeth pobl ifanc ddweud wrthym hefyd am y ffyrdd newydd lle byddent yn hoffi cael ein gwybodaeth. Yn ystod y flwyddyn, gwanethom:

- Ddiweddarau ac ailfrandio ein pecynnau gwybodaeth i blant, gan wneud y wybodaeth yn benodol i'w hoedran a'r math o achos y maent yn rhan ohono. Mae'r rhain i'w gweld ar ein gwefan.
- Ailddylunio ein gwefan i adlewyrchu anghenion pobl ifanc yn well ar gyfer dyluniad modern a darparu gwybodaeth sy'n benodol iddyn nhw ac wedi'i hysgrifennu mewn ffordd y byddent yn ei hoffi. Roedd hyn yn cynnwys datblygu adran newydd i bobl ifanc, ffurflen adborth newydd yn seiliedig ar deimladau a fideos wedi'u dylunio gan bobl ifanc ar y broses o gymryd rhan mewn achos Cyfraith Teulu.



Gwella ein gwasanaeth

Rydym yn parhau i ddysgu fel gwasanaeth a datblygwyd ein Fframwaith Sicrhau Ansawdd, Dysgu a Gwella yn ystod 2017/18. Mae hyn yn ein helpu i ddysgu o'r hyn a wnawn yn dda a nodi meysydd i'w gwella drwy wrando ar y cyhoedd i wella ansawdd ein gwasanaeth, rydym yn gwneud newidiadau i helpu i gryfhau ein gwasanaeth.



Dysgu a Datblygu

Rydym am i'n holl staff gael mynediad i hyfforddiant o ansawdd uchel, llawn gwybodaeth a pherthnasol ac mae hyn yn hanfodol i'r gwasanaeth parhaus.

Mae ein rhaglen dysgu a datblygu'n newid yn gyson er mwyn sicrhau y gall staff barhau i ddysgu am y pethau allweddol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.



Adborth

Mae adborth yn bwysig iawn i ni, mae'n ein helpu i wella ac yn dweud wrthym am eich syniadau gwych. Rydym wedi datblygu rhai ffyrdd gwahanol i bobl adael adborth i ni.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y canolbwynt adborth a gaiff ei lansio ar ein gwefan newydd.
- Gwahodd pobl i ddweud wrthym eu barn ar Cafcass Cymru drwy arolwg cyflym dros y ffôn.
- Yn dilyn argymhelliad y FJYPB, rydym wedi cyflwyno Coeden Adborth ym mhob un o'n hystafelloedd teulu i annog adborth gan y plant a'r bobl ifanc sy'n ymweld â'n swyddfeydd.
- Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn gweithio i wella ein dulliau o adborth i blant a phobl ifanc.



Canmoliaeth a Chwynion

O fis Ebrill 2017 tan fis Mawrth 2018, cawsom ganmoliaeth gan 51 o bobl y gwnaethom weithio'n agos gyda nhw. Roedd llawer o'r rhain yn sylwadau cadarnhaol gan rieni ar gyfer ein staff ar eu gwaith caled a'u cymorth ar gyfer eu plant/plentyn. Gwnaeth barnwyr a chyfreithwyr hefyd ganmol ein staff ar ansawdd eu hadroddiadau a'u hymddygiad mewn achosion llys.

Gwnaethom weithio gyda 9,000 o blant a phobl ifanc ledled Cymru. Nid oedd unrhyw un o'r plant a'r bobl ifanc wedi gwneud cwyn!

Oddi wrth oedolion, cawsom:

- 140 o gwynion, ac o blith y rhain llwyddwyd i ddatrys 112 ar gam cynnar. Roedd angen gwneud pellach ar y 28 o gwynion eraill.
- Roedd y rhan fwyaf o'r 28 o gwynion yn ein hachosion cyfraith breifat.
- Cafodd 10 o'r 28 o gwynion eu cadarnhau naill ai'n llawn neu'n rhannol.

Rydym yn gwerthfawrogi'r holl adborth, y gall defnyddwyr gwasanaethau ei roi i ni drwy ein gwefan. Bydd y gwersi a ddysgwn o'n cwynion a'n canmoliaeth yn ein helpu i wella ein gwasanaeth yn barhaus!

Edrych tuag at y flwyddyn i ddod

Yn 2018/19, byddwn yn parhau i ymateb i'r cynnydd yn y galw am ein gwasanaethau er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth amserol a chyson i blant, teuluoedd a'r llysoedd ledled Cymru. Byddwn yn gwneud hyn drwy'r canlynol:



Archwilio technolegau a datblygiadau gwasanaeth arloesol i wella ymhellach sut rydym yn gweithio a grymuso ein gweithlu i weithio'n hyblyg, yn effeithlon ac yn effeithiol.



Parhau i weithio gyda phartneriaid ar draws y sector i gyfrannu at ganlyniadau gwell i blant a phobl ifanc yng Nghymru.



Eisoes yn dechrau gweithio ar sawl un o'r prosiectau 'Dy Lais' ar gyfer y flwyddyn nesaf ac rydym yn edrych ymlaen at adeiladu ar gyfranogiad y FJYPB a chryfhau hyn yn y gwaith parhaus o ddatblygu ein gwasanaethau.



Cyfrannu at gynllunio a datblygu gwasanaethau ehangach gyda'n rhanddeiliaid i alluogi nod a rennir o wella canlyniadau ar gyfer y plant a phobl ifanc mwyaf agored i niwed yng Nghymru.



Gyrru datblygiadau ymlaen o fewn y Cyfraith Breifat drwy ein rhaglen Ymagwedd Arfer Gorau mewn Cyfraith Breifat: Canolbwyntio ar y Plentyn. Byddwn yn parhau i ymgorffori ein Fframwaith Sicrhau Ansawdd, Dysgu a Gwella a fydd yn cynnwys cyflwyno proses Adolygiad Ymarfer seiliedig ar gryfderau ar draws y sefydliad a gweithredu gweithdrefn Gwynion ddiwygiedig.